# Trosolwg

Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig (DU), ac mae'n goruchwylio sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, y tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio, y post a darllediadau radio a theledu. Rydym yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-lein sydd wedi'u sefydlu yn y DU, gan gynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) a llwyfannau rhannu fideos (VSPs). Ar hyn o bryd rydym yn paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein.

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf o reoleiddio VSPs, gwelsom fod gan bob un ohonynt fesurau i ddiogelu defnyddwyr, ond bod lle i wella. Yn ein hadroddiad VSP cyntaf, fe wnaethom ddweud y byddem yn edrych yn ehangach eleni ar y ffordd mae llwyfannau'n gosod, yn gorfodi ac yn profi eu dull gweithredu o ran diogelwch defnyddwyr. Gwnaethom osod pedair blaenoriaeth strategol, gan gynnwys ein nod o sicrhau bod gan ddarparwyr VSP brosesau digonol ar waith ar gyfer pennu ac adolygu polisïau defnyddwyr cynhwysfawr sy'n ymdrin â phob niwed perthnasol.

**Mae'r adroddiad hwn yn taflu goleuni ar ddulliau llwyfannau o ddylunio a gweithredu eu telerau ac amodau i ddiogelu defnyddwyr ac mae'n tynnu sylw at yr hyn rydym yn ystyried ydy enghreifftiau o arfer da. Dyma'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau VSP y byddwn yn eu cyhoeddi yn 2023.**

## Pam bod telerau ac amodau yn bwysig

Telerau ac amodau sy'n darparu'r contract rhwng darparwyr gwasanaethau a'u defnyddwyr. Maent yn nodi'r rheolau ar gyfer defnyddio llwyfan, gan gynnwys pwy sy'n gallu cael mynediad at y gwasanaeth, y cynnwys a'r ymddygiad a ganiateir (a elwir yn aml yn Ganllawiau Cymunedol), a chanlyniadau torri'r rheolau hynny.

Mae telerau ac amodau yn hanfodol ar gyfer diogelu pobl rhag niwed a chreu cymunedau diogel y gellir ymddiried ynddynt ar-lein. Maent yn rhoi eglurder i bobl ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl wrth ddefnyddio llwyfan, a'u galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am y gwasanaethau sydd ar gael. Maent hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer mesurau eraill i wella diogelwch ar-lein. Er enghraifft, ni all trefniadau adrodd defnyddwyr, apeliadau, a chymedroli cynnwys weithio'n ymarferol oni bai fod rheolau clir yn sail iddynt sy'n nodi'r hyn a ganiateir a'r hyn na chaniateir. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos nad yw llawer o ddefnyddwyr llwyfannau ar-lein yn ymgysylltu â thelerau ac amodau[1] ac nad ydynt bob amser yn eu deall hyd yn oed pan fyddant yn gwneud hynny.[2] O ystyried eu rôl ganolog o ran diogelu defnyddwyr, mae'n hanfodol bod darparwyr VSP yn sicrhau bod telerau ac amodau'n llawer mwy hygyrch a'u bod yn rhoi mesurau ar waith i wella gallu defnyddwyr i'w deall.

Yn gyffredinol mae gan wasanaethau ar-lein dimau o gymedrolwyr sy'n adolygu cynnwys ac yn gwneud yn siŵr bod rheolau'n cael eu gorfodi. Rhoddir arweiniad a hyfforddiant i gymedrolwyr i'w cynorthwyo i orfodi'r rheolau hynny. Mae'r arweiniad hwn hefyd yn helpu cymedrolwyr cynnwys i ystyried hawliau a buddiannau cyfreithlon defnyddwyr sy'n creu,

[1] Ofcom, Ein Gwlad Ar-lein Adroddiad 2021, tudalen 40.
[2] Ofcom, Telerau llwyfannau ac arolwg hygyrchedd 2023, Ch4.

uwchlwytho a gweld deunydd, a budd cyffredinol y cyhoedd. Mae'n rhan bwysig o sut mae VSPs yn gweithredu eu telerau ac amodau'n gyson, yn gywir, ac yn deg.

Rydym yn cydnabod y cyfaddawdu mae darparwyr VSP yn ei wynebu wrth gynyddu tryloywder eu polisïau. Er enghraifft, gall eglurhad manwl iawn o sut mae telerau ac amodau'n cael eu rhoi ar waith greu cyfleoedd i ddefnyddwyr osgoi'r rheolau a phostio cynnwys niweidiol, drwy roi gwybodaeth iddynt am sut mae gwasanaethau'n mynd i'r afael â chynnwys niweidiol. Os ydy polisïau'n cynnwys rhagor o fanylion i sicrhau tryloywder, gallai hynny hefyd ei gwneud hi'n anoddach i ddarparwyr eu diweddaru'n aml a chyflym er mwyn ymateb i niwed sy'n datblygu.

### Yr hyn rydym wedi'i ddysgu

Yn gynharach eleni, gwnaethom gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ganllawiau VSPs ar gyfer cymedrolwyr a thelerau ac amodau,[3] i ddeall dulliau gwahanol darparwyr o weithredu eu telerau ac amodau ac i nodi enghreifftiau sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr eraill yn ein barn ni. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at y rhain fel enghreifftiau o *arfer da*.

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad, y pethau allweddol a ddysgir yw:

- **Mae angen sgiliau darllen uwch ar ddefnyddwyr i ddeall telerau ac amodau'r VSPs**. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn addas ar gyfer llawer o ddefnyddwyr, gan gynnwys plant.
- **Mae telerau ac amodau VSPs yn delio â'r rhan fwyaf o'r deunydd sy'n niweidiol i blant[4] ond nid yw sawl un ohonynt yn glir ynghylch pryd maen nhw'n caniatáu eithriadau i'w rheolau.**
- **Nid yw defnyddwyr yn debygol o ddeall canlyniadau torri rheolau'r VSPs**. Dylai cosbau posibl am dorri rheolau gael eu gwneud yn glir i bob defnyddiwr yn y telerau ac amodau a dylai fod yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth hon.
- **Nid yw cymedrolwyr bob amser yn cael arweiniad digonol ar sut i orfodi telerau ac amodau VSPs.** Mae ansawdd adnoddau mewnol a hyfforddiant VSPs i gymedrolwyr yn amrywio'n sylweddol. Rydym yn annog darparwyr VSP i wneud yn siŵr bod yr adnoddau hyn yn glir er mwyn helpu cymedrolwyr i ddileu cynnwys niweidiol ac uwchgyfeirio achosion difrifol iawn yn gyflym.
- **Mae gan rai darparwyr VSP ddulliau arloesol o ddiweddaru a rhoi eu harweiniad ar brawf ar gyfer cymedrolwyr a thelerau ac amodau, ond gallai eraill wneud mwy i sicrhau bod eu prosesau'n rhagweithiol ac yn edrych tua'r dyfodol.**

[3] Gwnaethom gyhoeddi ceisiadau am wybodaeth i ddarparwyr chwe VSP hysbysedig: BitChute, Brand New Tube, OnlyFans, Snap, TikTok a Twitch.

[4] O dan y Drefn VSP, cyfeirir at gynnwys sy'n niweidiol i blant fel 'deunydd cyfyngedig'. Diffinnir 'deunydd cyfyngedig' fel fideos sydd â thystysgrif R18, neu a fyddai'n debygol o gael tystysgrif R18, fideos sy'n cynnwys deunydd nad yw'n addas ar gyfer dosbarthiad BBFC, a deunydd a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl ifanc o dan 18 oed.

## Ein camau nesaf

Byddwn yn gweithio gyda darparwyr VSP perthnasol i symud gwelliannau yn eu blaen. Rydym yn annog darparwyr i ystyried yr enghreifftiau o arfer da sydd wedi'u nodi yn y brif ddogfen ac ystyried p'un a allai mabwysiadu unrhyw un o'r rhain wella diogelwch i'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Bydd rheoli VSPs a'u dwyn i gyfrif yn ein helpu i baratoi ar gyfer ein rôl rheoleiddio ar-lein ehangach a nodir yn y Bil Diogelwch Ar-lein.